



**Cyngor Tref Dolgellau**

**Polisi Iechyd a Diogelwch**

(I) Cefndir

(1) Cyngor Tref Dolgellau (y Cyngor) yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel cyflogwr am ddarparu amgylchedd gwaith ddiogel ac iach i'w holl weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr ac eraill y gallai gweithgareddau'r Cyngor effeithio arnynt.

(2) Bydd y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, a bydd yn darparu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhagweladwy, yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

(3) Bydd y Cyngor yn ceisio cyngor technegol arbenigol ar Iechyd a Diogelwch fel y bo'n briodol i gynorthwyo'r Clerc i gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor i sicrhau amodau gwaith diogel.

(II) Amcanion

Nodau'r polisi hwn yw darparu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhagweladwy:

(1) Man gweithio diogel ac amgylchedd gwaith diogel.

(2) Trefniadau ar gyfer ystyried, adrodd ac adolygu materion Iechyd a Diogelwch yn y gwaith, gan gynnwys asesiadau risg rheolaidd o weithgareddau gwaith.

(3) Systemau gwaith sy'n ddiogel a heb risgiau i Iechyd.

(4) Cael cyngor technegol arbenigol a chymorth ar faterion Iechyd a Diogelwch pan fo angen.

(5) Digon o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i weithwyr, contractwyr a

gwirfoddolwyr i gyflawni eu gwaith yn ddiogel.

(6) Gofal a sylw i iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd y gall gweithgareddau'r cyngor effeithio arnynt.

(II) Trefniadau a Chyfrifoldebau ar gyfer Cyflawni'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle  
Fel Swyddog Diogelwch y Cyngor, bydd y Clerc yn:

(1) Cael yr wybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth polisi lechyd a Diogelwch perthnasol.

(2) Cynghori'r Cyngor ar yr adnoddau a'r trefniadau sydd eu hangen i gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle.

(3) Gwneud trefniadau effeithiol i roi'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ar waith.

(4) Sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn cael eu trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Cyngor.

(5) Sicrhau bod asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal o arferion gwaith, gan ystyried ac adolygu unrhyw fesurau rheoli/amddiffynnol angenrheidiol. Ystyried gofyn i gontractwyr ddarparu datganiad dull ysgrifenedig cyn dechrau ar waith mawr. Cadw ffeil o asesiadau risg.

(6) Gwneud trefniadau effeithiol i sicrhau bod y contractwyr neu'r gwirfoddolwyr hynny sy'n gweithio i'r Cyngor yn cydymffurfio â holl ofynion rhesymol Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle. Rhoddir copi o Bolisi Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle y Cyngor i bob contractwr.

(7) Sicrhau nad yw gweithgareddau gwaith y Cyngor yn peryglu iechyd a diogelwch y cyhoedd.

(8) Cadw cofnod canolog o ddamweiniau yr adroddir arnynt.

(9) Pan fydd damwain neu ddigwyddiad peryglus yn digwydd, cymryd camau ar unwaith i atal damwain neu ddamwain arall rhag digwydd eto a chwblhau'r weithdrefn adrodd am ddamweiniau angenrheidiol.

(10) Gweithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer yr Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch  
Bydd yr holl weithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr yn:

(1) Cydweithredu'n llawn â nodau a gofynion y Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle a chydymffurfio â Chodau Ymarfer neu gyfarwyddiadau gwaith ar gyfer Iechyd a Diogelwch.

(2) Cymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, defnyddio dillad

amddiffynnol personol priodol a, lle bo'n briodol, sicrhau bod deunyddiau Cymorth Cyntaf priodol ar gael.

(3) Cymryd gofal rhesymol am lechyd a Diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau.

(4) Peidio ag ymyrryd yn fwriadol â gorchuddion diogelwch, dyfeisiau diogelwch neu

(5) Peidio â chamdefnyddio unrhyw offer na deunyddiau er mwyn achosi risgiau i lechyd a Diogelwch.

(6) Rhoi gwybod i'r Clerc am unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau peryglus.

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf - Mehefin 2024